# YSGOL
# Y DDERWEN

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I RIENI

2024-25



**O'r fesen, derwen a dyf**

# YSGOL Y DDERWEN

## Ysgol Gynradd Benodedig Gymraeg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed


Heol Spurrell, Caerfyrddin. SA31 1TG
Rhif Ffôn: 01267 235598

E-bost: admin@ydderwen.ysgolccc.cymru
Gwefan: www.ysgolydderwen.cymru

ysgolydderwen ysgolydderwen

Pennaeth Dros Dro:- Mrs. Llio Dyfri Jones
Cadeirydd y Llywodraethwyr:- Mr. Alun Charles


Fy mraint unwaith eto'r flwyddyn hon yw cael eich cyfarch fel Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol y Dderwen. Rwy'n ymwybodol iawn or cyfrifoldeb sy'n dod i'm rhan yn y swydd hon ond ar yr un pryd yn gwerthfawrogi'r anrhydedd yn fawr iawn.

Gobeithio fod yr adroddiad hwn yn rhoi darlun clir i chi o amcanion a nodau'r ysgol hon ac y bydd y wybodaeth sydd ynddo o ddefnydd i chi.

Mae'n braf nodi fod y cydweithio effeithiol a chynhaliol rhwng y Corff Llywodraethu, Tîm Arweinyddiaeth yr Ysgol a'r Awdurdod Lleol yn parhau. Gwerthfawrogwyd hynny'n arbennig yn ystod y flwyddyn hon.

Mae cyfarfodydd y Corff Llywodraethu yn dangos yn glir i ni'r holl weithgarwch sy'n digwydd yn yr ysgol er mwyn sicrhau cwricwlwm a phrofiadau pwrpasol a gwerthfawr i'n disgyblion. Diolch i'r staff am yr holl gynllunio a pharatoi manwl sy'n digwydd a da gweld fod hynny'n dwyn ffrwyth yn ymateb ein disgyblion. Unwaith eto'r flwyddyn hon, maent wedi mwynhau llwyddiant mawr nid yn unig yn addysgol ond hefyd yn allgyrsiol mewn amryw ffyrdd.

Diolch hefyd i chi, rieni a gwarcheidwaid, am eich cefnogaeth i'r ysgol. Mae hynny mor allweddol. Calondid mawr yw gweld yn yr adroddiad, er enghraifft, fod presenoldeb ein disgyblion yn yr ysgol bob amser yn uchel. Ar ben hyn, wrth gwrs, mae ymdrechion y Gymdeithas Rieni ym mhob rhyw fodd yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y Staff a'r Corff Llywodraethu. Mae'r cyfarpar a bwrcaswyd yn ddiweddar drwy ymdrechion y Gymdeithas eisoes yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn fawr.

Tristwch o'r mwyaf i'r ysgol oedd clywed am golli un o'n disgyblion ifanc yn ystod y flwyddyn. Cofiwn yn annwyl iawn am Cali fach ac estynnwn ein cydymdeimlad cywir â'r teulu yn eu hiraeth a'u galar.

Mae hon yn flwyddyn arbennig a phwysig yn hanes ein hysgol gan ei bod yn dathlu'i phen-blwydd y 70 oed. Da bod arwyddair yr ysgol yn llwyr wireddu'r hyn sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd – O'r fesen, derwen a dyf'. Hir y pery'r dderwen! Diolch yn arbennig i Mrs Llio Dyfri Jones, Pennaeth Dros Dro, a'i chydweithwyr am drefnu dathliadau i nodi'r achlysur nodedig hwn ac am eu holl weithgarwch yn ystod y flwyddyn.

Wrth gloi, hoffwn ddiolch i chi, rieni a gwarcheidwaid, am bob cymorth a chydweithrediad a gobeithio y gallwn edrych ymlaen gyda'n gilydd at lwyddiannau pellach yn hanes yr ysgol ac addysg Gymraeg.

Mr Alun Charles [ Cadeirydd y Llywodraethwyr]

# Llywodraethwyr yr Ysgol

Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd (o leiaf unwaith bob tymor) gydag is-bwyllgorau yn cwrdd rhwng pob cyfarfod. Mae pob aelod o'r Corff Llywodraethol, ac eithrio'r Pennaeth, yn gwasanaethu am 4 mlynedd.

| | |
|---|---|
| Mr. Alun Charles **[Cadeirydd]** | Awdurdod Lleol |
| Cyng. Peter Hughes Griffiths | Awdurdod Lleol |
| Cyng. Emlyn Schiavone | Awdurdod Lleol |
| Parch. Tom Defis | Awdurdod Lleol |
| Parch. Beti Wyn James | Cymunedol |
| Cyng. Dr. Ioan Matthews | Cymunedol |
| Dr. Gwennan Schiavone | Cymunedol |
| Mrs. Luned Thomas | Cymunedol |
| Mrs. Carys Morgans | Cymunedol |
| Mr. Richard Davies | Cynrychiolydd Rhieni |
| Mr. Andrew Mackey | Cynrychiolydd Rhieni |
| Dr. Helen Davies | Cynrychiolydd Rhieni |
| Mrs. A. O'Hara | Cynrychiolydd Rhieni |
| Dr. Cerys Edwards | Cynrychiolydd Rhieni |
| Mr. Vivian Jenkins | Staff [Ategol] |
| Mrs. Angharad Williams | Staff [Addysgu] |
| Mrs. Llio Dyfri Jones | Staff [Addysgu] |



# Llywodraethwyr yr Ysgol

Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn adlewyrchu natur amrywiol y gymuned leol. Mae'r Cadeirydd yn cael ei ethol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd newydd.

Mae'r llywodraethwyr yn gyfrifol am weithredu polisïau'r Awdurdod Addysg a deddfwriaeth ysgolion y wlad. Mae ganddynt gyfrifoldebau sy'n debyg i Fwrdd Cyfarwyddwyr ym myd busnes. Mae'r Corff Llywodraethol llawn yn cyfarfod unwaith bob tymor tra bod is-bwyllgorau yn cwrdd yn ôl yr angen. Mae'r Pennaeth yn paratoi adroddiadau manwl i'w trafod gan y Corff Llywodraethol. Mae'r adroddiadau yma'n cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion, datblygiadau cwricwlaidd, materion staffio ac ati.

**Ethol cynrychiolwyr y rhieni yn llywodraethwyr:**

Weithiau bydd angen ethol rhieni i'r Corff Llywodraethol. Byddwch yn derbyn gwybodaeth am y broses hon y tro nesaf y bydd angen ethol rhieni.

**Sut ydw i'n cysylltu â'r Corff Llywodraethol?**

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu sylwad yr hoffech ei holi neu rannu gyda'r Corff Llywodraethol, gallwch ysgrifennu at y Cadeirydd naill ai drwy lythyr neu e-bost drwy swyddfa'r ysgol. Croesawn eich cyfraniad ar bob achlysur.

Ni chynhelir cyfarfod blynyddol bellach i'r rhieni, oni bai bod rhieni eisiau cynnal cyfarfod. Mae hawl cynnal tri chyfarfod y flwyddyn, a hynny drwy gyflwyno deiseb wedi ei llofnodi gan 10% o rieni y mae eu plant yn mynychu'r ysgol, gan nodi pam maent eisiau galw cyfarfod.

**Costau'r Corff Llywodraethu**

Ni hawliwyd costau unigol gan unrhyw lywodraethwr.



**Cwynion**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod 2024/25

# Staff yr Ysgol

Mrs. Llio Dyfri Jones – Pennaeth Dros Dro [U.D.Rh]

**Cyfnod Dysgu Sylfaen**

**Athrawon**

Mrs. Angharad Williams -[U.D.Rh]
Mrs. Nia Davies
Miss. Megan Lewis
Mrs. Kiri Thomas [CADY][U.D.Rh]
Mrs. Heledd Mathias
Miss. Catrin E Jones
Mrs. Sioned Watkin Sharp

**Cynorthwywyr Dysgu Sylfaen**

Mrs. Sherree Stephens
Miss. Lowri Davies
Mrs. Andrea Thomas
Mrs. Mary Pugh
Miss. Cerys Matthews
Mrs. Helen Wills
Mrs. Tracey Davies
Mrs. Miriam James
Miss. Michelle Jenkins

**Blwyddyn 3-6**

**Athrawon**

Mrs. Llio Dyfri Jones
Mr. Hedd Tudur
Mrs. Catrin M Jones [U.D.Rh]
Mr. Morgan Evans
Mrs. Hedydd Thomas
Mrs. Wendy Davies
Mr. Marc Tiplady [U.D.Rh]
Miss. Lisa Ferraro

**Cynorthwywyr Cyfnod Allweddol 2**

Mrs. Bethan Morgan
Miss. Leah Evans
Miss. Meryl Jones
Mrs. Elain Treharne
Mrs. Angharad Thomas
Miss. Bethan Jones
Mrs. Jasmine Taylor
Miss. Natalie Lewis
Miss. Marie Davies

**Gweinyddol**

Mrs. Anwen Davies
Mr. Vivian Jenkins – Gofalwr
Mrs. Gaynor Lewis

**Staff y Gegin a Glanhawyr**

Katie Pearce   Helen Harries   Tina Hooper   Jeanette Pointon   Jonpaul Joce   Kate Parker
Gloria Thomas   Philip Emery   Hazel Davies   Janice Davies   Aihoa Vi

[* U.D.Rh — Uwch Dîm Rheoli]

# Ein Gweledigaeth



**O'r fesen, derwen a dyf**

Credwn yn gryf fod taith pob disgybl o fewn yr ysgol yn unigryw a gwerthfawr a rhown bwyslais ar ddarparu profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol sy'n eu galluogi i gyrraedd y brig uchaf posibl. Gwnawn hynny bob amser mewn awyrgylch diogel a chartrefol lle mae pawb yn parchu ei gilydd. Mae ein diwylliant, ein treftadaeth a'n hanes fel Cymry yn ganolog i'r cwricwlwm ac yn fodd o ysbrydoli ein disgyblion i ymfalchïo yn eu Cymreictod.

# Nod yr Ysgol

Darparu addysg a gofal o'r radd flaenaf mewn awyrgylch hapus, ysgogol a diogel fel bod pob disgybl, beth bynnag fo'i allu, yn cyrraedd ei lawn botensial.

# Amcanion yr Ysgol

- Darparu amgylchedd hapus, cartrefol ac ysgogol lle gall pob disgybl lwyddo.
- Symbylu pob disgybl i ddatblygu hyd eithaf ei allu, yn academaidd, yn gymdeithasol, yn emosiynol, yn gorfforol ac yn ddiwylliannol.
- Sicrhau bod parch at eraill yn ganolog i holl waith yr ysgol.
- Sicrhau bod pob disgybl – beth bynnag fo'i gefndir ieithyddol – yn gwbl hapus o fewn awyrgylch Cymraeg a Chymreig yr ysgol.
- Sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn hyderus ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol.
- Datblygu medrau sylfaenol y disgyblion ym mhob agwedd ar y cwricwlwm gan gofio eu hoed a'u gallu.
- Magu ymhlith y disgyblion ymwybyddiaeth a'r awydd am ddimensiwn ysbrydol bywyd, parch at werthoedd crefyddol a goddefgarwch at hiliau a chrefyddau eraill.
- Hyrwyddo arferion diogelwch yn yr ysgol, y cartref a'r gymuned ehangach.
- Creu ymwybyddiaeth ymysg y disgyblion o'r angen am lendid personol, moesgarwch a chwrteisi.
- Creu cysylltiad agos rhwng y cartref a'r ysgol fel y gall rhieni ac athrawon gydweithio'n agos er lles pob disgybl.



## Ein Gwerthoedd




Wrth lunio gwerthoedd Ysgol y Dderwen, bu disgyblion a staff yn cydweithio'n agos i'w datblygu. Maent yn ganolog i'n hunaniaeth ac yn treiddio i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Rydym yn credu'n gryf yn y gwerthoedd hyn ac yn ymdrechu i'w byw bob dydd. Maent hefyd yn sail i'n Polisi Ymddygiad, gan adlewyrchu'r disgwyliadau uchel sydd gennym fel ysgol o'n disgyblion a'n cymuned gyfan.

Dyfalbarhad DIOLCHGAR Cyfeillgar **Cydweithio**

**Caredig** Parch **Gonestrwydd**

## Polisi Iaith

Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol. Cymraeg yw unig gyfrwng y Dysgu Sylfaen. Cyflwynir Saesneg fel pwnc ym mlwyddyn 3. Yn unol â pholisi dwyieithog yr Awdurdod Addysg, darperir adnoddau dysgu safonol i sicrhau bod disgyblion yn medru cyfathrebu'n rhwydd ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yn unol â pholisi'r ysgol, rhoddir sylw priodol i ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Gwneir hyn naill ai drwy ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion o fewn yr ystafell ddosbarth drwy eu haddysgu yn unigol neu mewn grwpiau bychain. Manteisir ar gymorth yr athrawon a/neu drwy gynhaliaeth cynorthwy-wyr. Gwneir defnydd o wasanaeth arbenigwyr allanol pan fo hynny'n briodol. Mrs Kiri Thomas yw'r cyd-gysylltydd anghenion dysgu ychwanegol.

## Cynllun Hygyrchedd

Mae gan yr ysgol gynllun hygyrchedd priodol a gwneir unrhyw addasiadau i'r dulliau o gyflwyno'r cwricwlwm yn ôl y galw.

## Iechyd a Diogelwch

Cynhaliwyd Awdit Iechyd a Diogelwch yn ystod Tymor yr Hydref 2024 gyda'r adroddiad yn canmol y safonau uchel ar draws yr ysgol. Cedwir golwg cyson ar gyflwr y tir a'r adeiladau, gan wneud unrhyw drwsiadau addas pan fo angen. Mae gan yr ysgol gytundeb â'r Sir ar gyfer glanhau'r ysgol. Mae holl gyfleusterau'r ysgol yn cael eu harchwilio'n rheolaidd yn unol â chytundeb lefel gwasanaeth y Sir.

## Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn plant yr ysgol gyfan. Mae gan yr ysgol Bolisi Amddiffyn Plant sy'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol. Yr uwch aelod dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yw Mrs Llio Dyfri Jones ac, yn ei habsenoldeb, Mrs Angharad Williams, Mrs Nia Davies, Mrs Catrin M Jones, Mrs Jasmine Taylor a Mr Viv Jenkins. Mae gan aelod dynodedig o'r Corff Llywodraethol, y Cyng Emlyn Schiavone, hefyd gyfrifoldeb am ddiogelu.

## Amserlen

Mae cloch yr ysgol yn canu am 9:00 o'r gloch. Nodwch nad yw hi'n bolisi i dderbyn disgyblion cyn 8.45 y bore. Bydd staff ar ddyletswydd swyddogol rhwng 8:45 a 9.00 o'r gloch.

Sefydlwyd Clwb Gofal Mes y Dderwen i gynorthwyo'r teuluoedd hynny sydd angen gofal plant. Mae'r clwb ar agor o 7.45 hyd 8.45 y bore a than 6.00 yr hwyr am dâl rhesymol. Cysylltwch â'r ysgol i gael manylion pellach. 01267 235598



**Amserlen Dysgu Sylfaen**

| | |
|---|---|
| 9:00—11:50 | Disgyblion y bore yn gadael am 11:30 |
| 10:15-10:30 | Egwyl Meithrin a Derbyn |
| 10:30—10:45 | Egwyl Bl 1 a 2 |
| 11:50—12:50 | Cinio; Disgyblion y prynhawn yn cyrraedd am 12:30 |
| 12:50—3:00 | Meithrin a Derbyn<br>[cymerir egwyl hybylyg yn ystod y prynhawn] |
| 12:50—3:15 | Blwyddyn 1 a 2 |
| 2:15-2:30 | Egwyl Bl 1 a 2 |

**Amserlen Blwyddyn 3-6**

| | |
|---|---|
| 9:00—12:00 | Sesiwn y bore |
| 10:30—10:45 | Egwyl Bl 5 a 6 |
| 10:45—11:00 | Egwyl Bl 3 a 4 |
| 12:00—1:00 | Cinio |
| 1:00—3:30 | Sesiwn y prynhawn |
| 2:00—2:15 | Egwyl Bl 3 a 4 |
| 2:15—2:30 | Egwyl Bl 5 a 6 |

# Cwricwlwm ac Asesu

Mae pedwar diben wrth wraidd cwricwlwm Ysgol y Dderwen; Mae'r rhain yn rhoi'r cyfle i bob disgybl a pherson ifanc ddatblygu i fod:

- yn **ddysgwyr uchelgeisiol**, **galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn **gyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus** sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd;
- yn **unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.






Mae'r holl athrawon a'r cynorthwy-wyr i'w canmol am safon y ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion Y Dderwen.  Gweithia pob un yn gydwybodol er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Ein nod yw cynnig addysg a gofal o'r safon uchaf mewn awyrgylch hapus, caredig, gweithgar a diogel fel bod pob disgybl, beth bynnag fo'i allu, yn cyrraedd ei lawn botensial. Rhoddir pwyslais ar ddysgu medrau sylfaenol llythrennedd, rhifedd a TGCh a phwysleisir pwysigrwydd eu gwneud yn berthnasol ac yn ystyrlon i'r plentyn.







# Cwricwlwm ac Asesu [2]

Mae'n bwysig gwneud y plentyn yn ymwybodol o'i amgylchfyd, ei gymuned, ei wlad a'i fyd.
Trwy ddefnyddio dulliau dysgu sydd wedi eu seilio ar themâu, mae strwythur ein cwricwlwm yn cynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cyfrannu mewn ffordd bendant a phenodol at ddatblygu pedwar diben y cwricwlwm. Gyda'i gilydd, maent yn diffinio ehangder ein cwricwlwm. Mae'r profiadau addysgiadol rydym yn eu cynnig yn rhan annatod o'n cwricwlwm, sy'n ehangu gorwelion ein disgyblion, yn symbylu eu dychymyg ac yn hybu mwynhad wrth ddysgu.

Y chwe maes dysgu a phrofiad yw:

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu
Mathemateg a rhifedd
Gwyddoniaeth a thechnoleg (yn cynnwys cyfrifiadureg)
Celfyddydau mynegiannol
Iechyd a lles
Dyniaethau (gan gynnwys Addysg Grefyddol)



Darperir cwricwlwm eang a phwrpasol sy'n sicrhau fod pob plentyn yn tyfu i fod yn ymwybodol o'r diwylliant Cymraeg a'r etifeddiaeth sydd ynghlwm â hyn.

Y mae gan yr ysgol hefyd Bolisi Cydraddoldeb. Ceisir hyrwyddo'r polisi trwy ei gynnwys yn y cwricwlwm a'r gwersi a addysgir pan fydd cyfle.





## Targedau'r Cynllun Datblygu Ysgol

Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol yn ddogfen weithiol, sy'n mynd i'r afael â'r blaenoriaethau sy'n deillio o'r argymhellion a wnaed gan Estyn ynghyd â gweithdrefnau hunan werthuso'r ysgol. Mae hefyd yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ynghyd â dadansoddiad o asesiadau a chanlyniadau diwedd blwyddyn. Mae aelodau'r Corff Llywodraethol wedi derbyn cyfrifoldeb am fonitro'r Cynllun Datblygu Ysgol a chânt gyfle cyson i adrodd ar y datblygiad mewn cyfarfodydd. Mae'r targedau'n cael eu gwerthuso'n rheolaidd.

## Prif Flaenoriaethau 2024/25

- Codi safonau ac ehangu medrau ysgrifennu estynedig ar draws yr ysgol.
- Cryfhau'r ddarpariaeth er mwyn ehangu dealltwriaeth disgyblion i gymhwyso medrau rhifedd mewn cyd-destunau bywyd pob dydd.
- Mireinio a datblygu'r Cwricwlwm gan ganolbwyntio ar gynnydd, dilyniant a phwrpas.
- Datblygu rôl ac effeithiolrwydd arweinwyr meysydd dysgu a phrofiad ym mhrosesau hunan werthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant.




## Prif Flaenoriaethau 2025/26

- Mireinio a datblygu'r Cwricwlwm gan ganolbwyntio ar gynnydd, dilyniant a phwrpas.
- Datblygu ymhellach brosesau asesu ffurfiannol ac adborth pwrpasol i gefnogi cynnydd dysgwyr.
- Datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel.
- Datblygu'r ardal allanol i gynnig profiadau ymarferol i ddatblygu dysgwyr iach, gwybodus, galluog ac annibynnol.



## Safonau a Pherfformiad

Cyffredinol:

- Presenoldeb: parhau yn gyson dros 95%
- Fframwaith Cefnogaeth Her ac Ymyrraeth: mae'r ysgol yn derbyn cefnogaeth gan swyddogion yr AALl.
- Perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim; gan fod y canran mor isel (tua 4%) mae'n anodd gwneud datganiad ystyrlon ynglŷn â'r patrwm.
- Disgyblion ADY: Mae disgyblion ADY yn gwneud cynnydd cadarn yn y ddau gyfnod allweddol
- Cymhariaeth rhwng perfformiad bechgyn/merched: Does dim patrwm amlwg o wahaniaeth dros y cyfnodau.

## Hyfforddiant Mewn Swydd

Cafwyd amrywiaeth o wahanol sesiynau hyfforddiant mewn swydd er mwyn sicrhau y cyflawnir blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol ynghyd â diwallu anghenion unigol y staff.

## Adolygiadau i Brosbectws a Pholisïau'r Ysgol

Mae holl bolisïau'r ysgol yn gyfredol, ac fe adolygir pob polisi yn ôl y gofyn gan y Corff Llywodraethol. Ail-luniwyd prosbectws yr ysgol yn ystod y flwyddyn a gellir gweld copïau ohono ar ein gwefan ac ar yr ap. Os dymunwch gopi papur—mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddfa.

## Bwyta ac Yfed yn Iach

Mae'r ysgol yn ceisio'n galed i hybu ffordd iach o fyw ac mae'r polisi Bwyd a Ffitrwydd yn adlewyrchu hyn. Mae'r ysgol wedi ennill cydnabyddiaeth ac yn cyrraedd safonau cynllun Ysgolion Iach y Sir.

## Trefniadau a Chyfleusterau Tai Bach

Mae gan yr ysgol nifer addas o dai bach ar gyfer y disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol. Mae'r cyfleusterau yn cael eu glanhau yn ddyddiol gan wasanaeth glanhau yr Awdurdod Addysg.

## Profiadau ym Maes Addysg Gorfforol

Yn gyffredinol prif nodau dysgu Addysg Gorfforol yw annog a helpu pob plentyn i fyw bywyd iachus a bywiog, ac i hyrwyddo datblygiad priodweddau dymunol megis ymdrech, chwarae teg, cyd-chwarae, dyfalbarhad, gorchest a hunan hyder. Ceisia'r staff gyflawni'r nodau hyn trwy gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau i blant o bob oedran, y tu mewn a thu allan i'r cwricwlwm ffurfiol, gan eu herio i ddatblygu a gwella'u perfformiad unigol. Mae'r gweithgareddau yma'n cynnwys athletau, nofio, gêmau rygbi, pêl-droed, criced, pêl-rwyd, tenis a gweithgareddau awyr agored.

## Ymweliadau Addysgiadol

Teimlwn yn gryf fod disgyblion yn elwa'n fawr o gymryd rhan yn yr ymweliadau amrywiol a drefnir gennym i brofi profiadau newydd sydd yn ehangu eu haddysg yn gyffredinol. Gall ymweliadau addysgol gyfrannu at ddyfnhau'r dysgu yn ogystal â datblygu sgiliau personol a chymdeithasol amrwyiol a gwerthfawr. Trwy ymweliadau, cyflwynwn brofiadau uniongyrchol sy'n ennyn diddordeb a dealltwriaeth o'r amgylchfyd gan atgyfnerthu'r dysgu. Rhown bwys ar sicrhau fod pwrpas a gwerth i'r ymweliadau a bod caniatâd rhieni ac asesiadau risg priodol mewn lle cyn cychwyn ar yr ymweliad.

## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Mae'n dyled yn fawr eleni eto i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am eu hymdrechion diflino wrth drefnu gweithgareddau cymdeithasol i godi arian tuag at anghenion yr ysgol. Yn ogystal â hyn, mae'r gymdeithas hefyd yn cyfrannu at dalu am adnoddau e.e. y cwrs antur newydd ar y cae, beiciau ar gyfer disgyblion dan 5, ariannu parti Nadolig y disgyblion a chost bysus i Langrannog, Abernant a Chaerdydd yn flynyddol. Cofiwch fod croeso cynnes iawn i bob rhiant ac yn arbennig i rieni newydd.

CRhA Ysgol y Dderwen PTA

| CYFLAWNIAD ARIANNOL 2024/25 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| DYRANIAD FFORMIWLA | ARIAN A DDYGWYD YMLAEN O 2023/24 | CYFANSWM AR GAEL | GWARIANT NET 2024/25 | GWAHANIAETH—ARIAN WRTH GEFN YN CARIO DROSODD I 2025/26 |
| £1,656,652 | +£55,745.00 | £1,712,397 | £1,641312 | +£71,085.00 |




Hoffai'r Corff Llywodraethol a'r Pennaeth Dros Dro estyn eu diolchiadau diffuant i holl staff yr Ysgol am eu hymroddiad a'u gwaith cydwybodol drwy gydol y flwyddyn. Dymunir hefyd fynegi gwerthfawrogiad i'r rhieni am eu hymddiriedaeth barhaus a'u cefnogaeth gyson.